Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 260

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

RHAN 5

Yr hawl i gael amser i ffwrdd

Gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc

37.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo gŵyl gyhoeddus neu ŵyl banc yng Nghymru yn syrthio ar ddiwrnod pan fo'n ofynnol fel arfer i weithiwr amaethyddol weithio o dan naill ai ei gontract neu ei brentisiaeth.

(2) Mae gan weithiwr amaethyddol y mae ei gyflogwr yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithio ar yr ŵyl gyhoeddus neu'r ŵyl banc hawl i gael tâl nad yw'n llai na'r gyfradd goramser a bennir yn erthygl 12.

(3) Mae balans y gwyliau blynyddol sydd wedi eu cronni ar gyfer y flwyddyn gwyliau honno o dan y Gorchymyn hwn gan weithiwr amaethyddol nad yw ei gyflogwr yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithio ar yr ŵyl gyhoeddus neu'r ŵyl banc i gael ei leihau o 1 diwrnod mewn cysylltiad â'r ŵyl gyhoeddus neu'r ŵyl banc nad yw'n ofynnol i'r gweithiwr amaethyddol weithio arni.